GWNEUD SYNNWYR O'R ARGYFWNG HINSAWDD

ARCHWILIO GWERTHOEDD, MEDDYLIAU, TEIMLADAU A CHAMAU GWEITHREDU

Cyflwyniad

Mae pobl ifanc heddiw yn byw mewn cyfnod o argyfwng hinsawdd. Mae hyn yn effeithio ar filiynau o'r bobl dlotaf yn y byd ar hyn o bryd. Mae tywydd mwy eithafol ac amlach — er enghraifft stormydd a sychder — yn dinistrio cartrefi ac yn chwalu bywydau a bywoliaeth pobl. Y bobl hynny sydd wedi gwneud y lleiaf i achosi'r argyfwng hinsawdd sy'n cael eu taro galetaf. Mae pobl sy'n ei chael yn anodd diwallu eu hanghenion sylfaenol — er enghraifft cael bwyd, dŵr glân, addysg a gofal meddygol — yn cael eu gwthio ymhellach i dlodi gan effeithiau dinistriol y newid yn yr hinsawdd. Mae yna obaith o hyd, ond mae gwyddonwyr wedi datgan mai dim ond deng mlynedd sydd gennym i leihau effaith yr argyfwng hwn yn sylweddol.

Mae'r cynnydd cyfredol mewn 'eco-bryder'[1] yn adlewyrchu'r angen cynyddol i gefnogi pobl ifanc i wynebu realiti'r argyfwng hinsawdd, ynghyd â'r angen cyfatebol i bobl ar bob lefel o gymdeithas weithredu 'nawr er lles ein planed a phawb sy'n byw arni. Mae ar bobl ifanc angen lle a chymorth i drafod y materion hyn, ynghyd ag i archwilio eu meddyliau a'u hemosiynau a rhoi ystyriaeth i ymatebion posibl.

Yn llawn astudiaethau achos ysbrydoledig a syniadau creadigol i gymryd camau gweithredu, mae'r adnodd trawsgwricwlaidd hwn ar gyfer plant 8-14 mlwydd oed, sy'n arbennig o berthnasol i ABGI (ABCh/Iechyd a Llesiant) a Daearyddiaeth (Astudiaethau Cymdeithasol), yn helpu dysgwyr i wneud synnwyr o'r argyfwng hinsawdd; trafod eu pryderon, eu meddyliau a'u teimladau; a theimlo eu bod yn cael eu grymuso i weithredu — yn unigol ac ar y cyd â phobl eraill. Bydd y dysgwyr yn myfyrio ar eu gwerthoedd — yr hyn y maent yn ei deimlo sy'n bwysig mewn bywyd, pa fath o berson yr hoffent fod, a pha fath o fyd yr hoffent fyw ynddo. Byddant yn cael rhagor o wybodaeth am rai o'r ffyrdd y mae pobl a chymunedau ledled y byd yn gwrthsefyll yr argyfwng hinsawdd, a byddant yn ystyried sut y gallent ddewis gymryd camau gweithredu eu hunain.

Cynnwys

- Cyflwyniad t. 1
- Gwybodaeth gefndir t. 2
- Gwybodaeth am yr adnodd hwn t. 4
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau t. 5
  - Meddwl am y dyfodol t. 5
  - Beth yr ydym yn ei wybod, yn ei feddwl, ac yn ei deimlo am y newid yn yr hinsawdd? t. 6
  - Gwrthsefyll yr argyfwng hinsawdd t. 8
  - Ein grym ni — yn lanach, yn wyrddach ac yn gryfach gyda'n gilydd t. 9
- Adnoddau defnyddiol t. 11
- Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol t. 12
- Cymorth pellach i weithredu t. 13
- Taflenni gweithgareddau ac adnoddau t. 14

[1] www.apa.org/news/press/releases/2017/03/mental-health-climate.pdf

Gwybodaeth Gefndir

Yr argyfwng hinsawdd

Mae gwyddoniaeth yn dangos y bu newidiadau yn yr hinsawdd fyd-eang oddi ar dechrau'r 1900au, a bod y newidiadau hyn, ochr yn ochr â'r newid yn yr hinsawdd a ragwelir yn y dyfodol dros y ganrif nesaf, yn deillio, yn bennaf, o weithgarwch dynol ac allyriadau gormodol o nwyon tŷ gwydr sy'n cynhesu'r Ddaear. Newid yn yr hinsawdd yw hwn, rhywbeth y cyfeirir ato'n aml fel 'cynhesu byd-eang'.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar filiynau o bobl dlotaf y byd 'nawr. Mae tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac mae'n fwy dinistriol. Mae trychinebau sy'n seiliedig ar yr hinsawdd yn gorfodi mwy nag 20 miliwn o bobl y flwyddyn — un person bob dwy eiliad — i adael eu cartrefi.[2]

Yn ychwanegol at hyn, y rheiny sydd wedi gwneud y lleiaf i achosi'r argyfwng hinsawdd — sef pobl dlotaf y byd — sy'n cael eu taro galetaf. Amcangyfrifwyd y bydd gwledydd sy'n datblygu yn ysgwyddo 75% o gostau'r argyfwng hinsawdd, er bod hanner tlotaf poblogaeth y byd yn gyfrifol am ddim ond 10% o'r allyriadau carbon deuocsid.[3] Mae pobl sy'n ei chael yn anodd diwallu eu hanghenion sylfaenol — er enghraifft cael bwyd, dŵr glân, addysg a gofal meddygol — yn cael eu gwthio ymhellach i dlodi gan effeithiau dinistriol y newid yn yr hinsawdd. At hynny, mae'r disgwyliadau a'r gwahaniaethu y mae menywod a merched yn eu hwynebu yn golygu yr effeithir arnynt mewn modd anghymesur. Mewn cyfnodau heriol, menywod yn amlach na pheidio fydd yn gorfod talu'r pris yn hytrach na dynion. Er enghraifft, maent yn fwy tebygol o lwgu pan fydd bwyd yn brin neu o golli sicrwydd gwaith pan fydd y cynaeafau'n methu.

Yn y Deyrnas Unedig, fel mewn gwledydd eraill, y cymunedau tlotaf yw'r rhai sydd fwyaf agored i'r newid yn yr hinsawdd. Yn ôl Swyddfa Dywydd y Deyrnas Unedig, mae'r newid yn yr hinsawdd wedi cynyddu'r risg o lifogydd yng Nghymru a Lloegr o leiaf 20% (a chymaint â 90%, o bosibl).[4] Gyda llawer o aelwydydd incwm isel yn methu fforddio yswiriant ar gyfer cynnwys eu tai, neu sydd heb gynilion wrth gefn, gall y llifogydd hyn fod yn arbennig o ddinistriol i'r rheiny sy'n byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig.

Mae yna obaith o hyd, ond mae gwyddonwyr wedi datgan mai dim ond deng mlynedd sydd gennym i leihau effaith yr argyfwng hwn yn sylweddol.[5] Ym mis Tachwedd 2020, disgwylir i arweinwyr y byd gwrdd yn Glasgow ar gyfer y 26ain Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Partïon (COP 26). Bydd y rheiny a fydd yn bresennol yn adrodd ar y cynnydd a fydd wedi'i wneud ar lefelau cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ynghyd â chytuno, gobeithio, ar gynlluniau newydd ac uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon a chefnogi'r cymunedau a'r gwledydd hynny yr effeithir arnynt fwyaf.

Menywod yn rhanbarth Tsholotso yn Zimbabwe yn dysgu am ffyrdd effeithiol o dyfu cnydau sy'n gwrthsefyll sychder.
Llun: Sven Torfinn/Oxfam Novib

Gall pob un ohonom chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o achub ein planed a'i phobl – ond dim ond os cymerwn gamau brys 'nawr. Mae gennym y grym i drwsio hyn gyda'n gilydd os byddwn yn gweithredu yn ein bywydau ein hunain, ac yn gwthio llywodraethau a chorfforaethau am atebion sy'n ein galluogi i fynd i'r afael ar frys â'r argyfwng hinsawdd, a hynny unwaith ac am byth. Gall pob un ohonom wneud mwy i leihau ein hallyriadau ein hunain, ac os

[2] www.oxfam.org/cy/research/forced-home-climate-fuelled-displacement
[3] https://digitallibrary.un.org/record/3810720?ln=cy
[4] www.metoffice.gov.uk/research/climate/understanding-climate/uk-extreme-events-_heavy-rainfall-and-floods
[5] www.ipcc.ch/2018/10/08/summary-for-policymakers-of-ipcc-special-report-on-global-warming-of-1-5c-approved-by-governments/

bydd miliynau ohonom yn gwneud y newidiadau hyn i'n bywydau, gallwn ddangos i lywodraethau a chorfforaethau mawr ein bod am fyw mewn byd lle mae cymdeithas wyrddach a thecach yn bosibl.

Pobl ifanc a'r argyfwng hinsawdd

Mae twf cyflym mudiad streic yr hinsawdd mewn ysgolion ledled y byd yn adlewyrchu awydd cynyddol pobl ifanc i ymgysylltu â'r argyfwng hwn ac ymateb iddo. Mae llawer o ysgolion yn cymryd rhan yn y streiciau mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft trwy drefnu 'streiciau' iard chwarae yn ystod amser cinio neu 'streiciau cwricwlwm', lle cynhelir gweithgareddau dysgu sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd neu'r amgylchedd yn hytrach na'r amserlen arferol o wersi. Yn y Deyrnas Unedig, mae rhai o'r bobl ifanc yn arwain ymgyrch Teach the Future[6], sy'n galw am newidiadau i'r system addysg gyfredol er mwyn rhoi cymorth mwy digonol iddynt baratoi ar gyfer yr argyfwng hinsawdd, ynghyd ag ymateb iddo. Mae'r ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol hefyd yn canolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd eleni. Mae'r ymgyrch Yr Hinsawdd lawn i Ddysgu (Right Climate to Learn) yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud mwy i atal y newid yn yr hinsawdd rhag tanseilio'r hawl i addysg, yn ogystal â chryfhau rôl addysg mewn perthynas â'r ymateb byd-eang i'r hinsawdd.[7]

Mae yna alwadau ehangach ledled pob rhan o'r sector addysg i roi mwy o sylw i'r argyfwng hinsawdd yn y cwricwlwm — a hynny gan y Cenhedloedd Unedig, arweinwyr ysgolion ac athrawon.[8][9] Daeth gwaith ymchwil gan YouGov, a gomisiynwyd gan Oxfam ym mis Mehefin 2019, i'r casgliad bod mwy na dwy ran o dair o athrawon y Deyrnas Unedig a holwyd yn teimlo y dylid addysgu mwy am yr argyfwng hinsawdd mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig, tra nad oedd tri chwarter ohonynt yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i addysgu pobl ifanc am y newid yn yr hinsawdd.[10] Roedd tua 40% o athrawon y Deyrnas Unedig a holwyd gan Schoolzone ym mis Mehefin 2019 o'r farn y gallai eu hysgol wneud rhagor i annog ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.[11]

Mae yna bryder cynyddol ynghylch y straen y mae'r argyfwng hinsawdd yn ei roi ar lesiant pobl, yn enwedig pobl ifanc — p'un ai oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorlethu gan yr heriau ecolegol y mae ein planed yn eu hwynebu, neu oherwydd bod y newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Daeth gwaith ymchwil, a gomisiynwyd gan Triodos Bank, i'r casgliad bod ychydig dros draean o'r cyhoedd ym Mhrydain (34%) yn profi 'eco-bryder', gyda'r gyfran honno'n codi i 40% ymhlith pobl ifanc 16-24 mlwydd oed.[12] Daeth arolygon diweddar gan yr elusen amgylcheddol Global Action Plan i'r casgliad bod un o bob tri athro yn y Deyrnas Unedig yn gweld lefelau uchel o'r pryder am yr hinsawdd ymhlith eu dysgwyr, gyda 77% o ddysgwyr yn dweud bod meddwl am newid yn yr hinsawdd yn eu gwneud yn orbryderus.[13] Rhagwelir y bydd trawma a achosir gan brofiad uniongyrchol o drychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cynyddu. Er enghraifft, yn y Deyrnas Unedig daeth astudiaeth ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd i'r casgliad y gallai profi tywydd eithafol tebyg i stormydd neu lifogydd gynyddu'r tebygolrwydd o wynebu problemau iechyd meddwl, gan gynnwys straen ac iselder 50%.[14] Gallai cymryd camau gweithredu, naill ai trwy newid ffordd o fyw unigol i leihau allyriadau carbon, ymgysylltu â'r byd naturiol, neu gymryd rhan mewn ymatebion cymunedol ar y cyd, helpu i reoli'r lefelau pryder.[15]

[6] www.teachthefuture.uk
[7] https://sendmyfriend.org/
[8] https://unfccc.int/news/call-for-all-countries-to-commit-to-climate-education-by-cop26
[9] www.tes.com/news/step-climate-change-education-heads-leader-says
[10] www.theguardian.com/environment/2019/jun/21/teachers-want-climate-crisis-training-poll-shows
[11] www.schoolzone.co.uk/downloads/files/1559647790.pdf
[12] www.triodos.co.uk/articles/2019/how-is-the-environmental-crisis-making-us-feel
[13] www.globalactionplan.org.uk/news/transform-our-world-press-releaseturning-anxiety-into-action
[14] www.gov.uk/government/news/prepare-for-flooding-to-reduce-impacts-on-mental-health
[15] www.nesta.org.uk/feature/ten-predictions-2020/ecoanxiety-will-help-us-save-planet

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Yn ychwanegol at hynny, mae pobl ifanc yn byw mewn byd lle mae'r hysbysebion a'r cyfryngau yn annog 'gwerthoedd anghynhenid', sy'n ymwneud â chyfoeth, delwedd, statws a'r diwylliant prynu, yn hytrach na 'gwerthoedd cynhenid', sy'n cynnwys twf personol a phryder am bobl eraill a'n hamgylchedd. Gall cefnogi dysgwyr i flaenoriaethu'r 'gwerthoedd cynhenid' hyn annog dinasyddiaeth weithredol — rhywbeth sy'n bwysig nid yn unig i leihau allyriadau carbon a gwarchod ein planed, ond hefyd i gynnal eu llesiant eu hunain.[16]

Gwybodaeth am yr adnodd hwn

Mae'r adnodd hwn yn cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- Myfyrio ar eu gwerthoedd — pa fath o berson yr hoffent fod a pha fath o fyd yr hoffent fyw ynddo
- Meithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei olygu, ei achosion a'i effeithiau
- Archwilio eu meddyliau a'u teimladau am y newid yn yr hinsawdd
- Dysgu sut y mae pobl, cymunedau a sefydliadau ledled y byd yn gweithio gyda'i gilydd i addasu i'r heriau sy'n eu hwynebu o ran yr hinsawdd
- Ystyried y ffyrdd posibl o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a theimlo eu bod yn cael eu grymuso i gymryd camau gweithredu eu hunain

Darperir deilliannau dysgu ac amserau awgrymedig ar gyfer pob gweithgaredd, ynghyd â syniadau pellach i ymestyn y dysgu. Mae'r holl daflenni gweithgareddau ac adnoddau wedi'u cynnwys yn y pecyn adnoddau hwn. Mae yna hefyd sleidiau cysylltiedig sy'n cynnwys gwybodaeth a delweddau defnyddiol i gefnogi'r dysgu ac ysgogi trafodaeth. Yn ddelfrydol, byddai'r holl weithgareddau'n cael eu cyflwyno mewn cyfres o wersi, ond mae'r adnodd hwn wedi cael ei gynllunio i'w ddefnyddio mewn modd hyblyg er mwyn galluogi athrawon i addasu un neu ragor o'r gweithgareddau hyn i'w defnyddio ar eu pen eu hunain, yn ôl y gofyn. Er eu bod wedi cael eu hanelu at ddysgwyr 8-14 mlwydd oed, gellid addasu rhai o'r gweithgareddau i'w defnyddio gyda chynulleidfa iau neu hŷn.

Yn dibynnu ar lefelau gwybodaeth presennol y dysgwyr, efallai yr hoffech roi ystyriaeth fanylach i wyddoniaeth, achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd o gymharu â'r hyn a gynhwysir yn yr adnodd hwn. Darperir adnoddau a ffynonellau gwybodaeth awgrymedig yn yr adrannau isod, sef: Adnoddau defnyddiol a Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar ddull Dysgu-Meddwl-Gweithredu, gan roi cyfle i ddysgwyr ddysgu am yr argyfwng hinsawdd, meddwl yn feirniadol am ymatebion posibl, ac ystyried sut y gallent weithredu mewn ymateb i'w dysgu, a hynny'n unigol ac ar y cyd â phobl eraill. Mae'n bwysig ei gwneud yn eglur i'r dysgwyr fod gweithredu yn rhywbeth gwirfoddol; mae yna lawer o ffyrdd gwahanol i weithredu, a mater i'r dysgwyr yw dewis sut y maent am ymateb. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddwch yn gweld bod llawer o'ch dysgwyr yn dymuno ymateb i'r argyfwng hinsawdd mewn ffyrdd gweithredol. Gall gweithredu fod yn ymateb priodol a grymusol i faterion byd-eang mewn bywyd go iawn ar gyfer pobl ifanc, a hynny wrth iddynt gael y profiad o fod yn rhan o'r broses o sicrhau newid sy'n gwella bywydau pobl a'n planed.

Mae'r materion a archwilir yn yr adnodd hwn yn gymhleth ac, o bosibl, yn emosiynol. Mae dysgwyr yn debygol o feddu ar amrywiaeth o deimladau, meddyliau ac ymatebion mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd. Gall yr ymatebion hyn gynnwys eco-bryder penodol, a gallai hynny gael ei gymhlethu, neu beidio, gan bryderon personol neu gymdeithasol eraill. Yn y cyfamser, gall rhai o'r newidiadau awgrymedig o ran ffordd o fyw a archwiliwyd yn y gweithgaredd diwethaf hefyd ysgogi sensitifrwydd. Er enghraifft, efallai y bydd rhai dysgwyr yn dod o gymunedau ffermio y mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar

[16] www.transform-our-world.org/files/values_to_transform_our_world_white_paper.pdf

gynnyrch llaeth neu gig; ac efallai y bydd dysgwyr sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn gorfod siopa mewn siopau ail-law neu droi'r gwres i lawr yn eu cartrefi, a hynny am resymau'n ymwneud â chostau yn hytrach na rhesymau amgylcheddol. Efallai hefyd y bydd gan rai dysgwyr brofiad uniongyrchol o effeithiau'r argyfwng hinsawdd, er enghraifft y llifogydd diweddar mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig.

Er mwyn delio â'r mathau o heriau a amlinellir yn y paragraff blaenorol, rydym yn argymell cadw'r drafodaeth mor agored â phosibl — cefnogi dysgwyr i ofyn cwestiynau, gwrando ar ymatebion a syniadau pobl eraill, a'u parchu. Ar yr un pryd, mae'n bwysig bod yn ystyriol o'ch dyletswydd i ofalu am eich dysgwyr, fel y nodir ym mholisïau perthnasol yr ysgol. Felly, rydym yn argymell eich bod yn sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r polisïau hyn cyn i chi ddechrau ar y gweithgareddau yn yr adnodd hwn. Mae canllaw Addysgu Pynciau Llosg Oxfam yn rhoi arweiniad pellach ar reoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth (gweler yr adran Adnoddau defnyddiol isod).

Byddai Addysg Oxfam yn falch o glywed am unrhyw gamau gweithredu y mae eich dysgwyr yn eu cymryd mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Anfonwch unrhyw luniau, adroddiadau neu straeon i education@oxfam.org.uk. Os byddwch yn anfon ffotograffau, gwnewch yn siŵr bod gennych ganiatâd i'w defnyddio.

Syniadau ar gyfer gweithgareddau

Meddwl am y dyfodol (30 munud)

Deilliannau dysgu: Deall yr hyn y mae gwerthoedd yn ei olygu, a sut y maent yn dylanwadu ar ein meddyliau, ein teimladau a'n camau gweithredu; Ystyried a thrafod pa fath o berson yr hoffwn fod a pha fath o fyd yr hoffwn fyw ynddo; Cydnabod rhai o'r materion mawr sy'n wynebu ein byd, er enghraifft yr argyfwng hinsawdd.

Nodwch: Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i addasu o un a ddefnyddir yn y prosiect Learning through Values dan arweiniad Lifeworld Learning (gweler yr adran Adnoddau defnyddiol isod).

- Dangoswch sleid 2 i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt beth yw gwerthoedd, yn eu barn nhw. Ewch i sleid 3 ac eglurwch fod gwerthoedd yn golygu'r hyn yr ydym yn credu ei fod yn bwysig mewn bywyd. Maent yn effeithio ar yr hyn yr ydym yn ei feddwl, yn ei ddewis, ac yn ei wneud; yn llunio nodau sy'n ysgogi camau gweithredu; yn dylanwadu ar y modd yr ydym yn rheoli ein teimladau a'n hemosiynau; ac yn llywio ein credoau am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd.
- Trefnwch y cyfranogwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp a gofynnwch iddynt lunio amlinellaid o berson yn y canol. Yna dylai'r dysgwyr lunio cylch mawr o amgylch yr unigolyn, i gynrychioli'r byd. Gweler enghraifft ar sleid 4.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiynau canlynol, ac yna ymateb trwy ysgrifennu geiriau neu ymadroddion ar eu dalen o bapur (gweler sleid 4).
    - **Pa fath o berson yr hoffech fod?** Nodwch yr ymatebion y tu mewn i'ch amlinellaid o'r unigolyn.
    - **Pa fath o fyd yr hoffech fyw ynddo?** Nodwch yr ymatebion y tu mewn i'ch amlinelliad o'r byd.
- Dylai pob dysgwr feddu ar ei ysgrifbin neu ei bensil ei hun er mwyn ei alluogi i ymateb yn unigol, os yw'n dymuno gwneud hynny. Eglurwch nad oes yna atebion cywir nac anghywir. Mae ein gwerthoedd — yr hyn yr ydym yn credu ei fod yn bwysig mewn bywyd — yn bethau personol. Mae gan bobl wahanol syniadau gwahanol, ac mae hynny'n iawn. Pwysleisiwch y dylai pawb gael yr hawl i fynegi eu barn, ac y dylem barchu syniadau pawb.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Anogwch y dysgwyr i rannu a thrafod eu syniadau â phobl eraill. Efallai y byddai'n ddefnyddiol defnyddio sesiwn amser cylch i gefnogi a datblygu'r drafodaeth hon. Os yw'n briodol, cefnogwch y dysgwyr i herio syniadau pobl eraill mewn modd adeiladol a pharchus.
    - O ble yr ydych yn credu y mae eich syniadau yn dod? Ymhlith yr atebion posibl y mae: aelodau o'r teulu, ffrindiau, athrawon, crefydd, profiadau bywyd, enwogion, y cyfryngau, pobl yn fy nghymuned a'r llywodraeth.
    - A ydych yn credu bod eich syniadau wedi newid, neu y byddant yn newid yn ystod eich bywyd? Sut y maent wedi newid/A ydych yn credu y byddant yn newid? Pam yr ydych yn credu bod hyn wedi digwydd/y bydd hyn yn digwydd?
    - Ystyriwch yr hyn yr ydych yn ei wneud a'r modd yr ydych yn treulio eich amser bob dydd. Beth yr ydych yn ei wneud sy'n eich helpu i fod y math o berson yr hoffech ei fod ac i greu byd yr hoffech fyw ynddo?
- Ewch i sleid 4 a gofynnwch i'r dysgwyr beth yw'r materion mawr yn y byd, yn eu barn nhw. Gofynnwch iddynt gofnodi eu hymatebion o amgylch ymyl y byd ar ddarn papur eu grŵp.
- Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r cwestiwn olaf hwn. Ymhlith y cwestiynau posibl y mae:
    - Pa faterion yw'r rhai mwyaf heriol, yn eich barn chi? Pa faterion yr ydych yn teimlo gryfaf amdanynt?
    - Sut y gallai'r materion hyn effeithio arnoch chi a'r math o fyd yr hoffech fyw ynddo?
- Eglurwch y bydd y dysgwyr yn archwilio un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein byd heddiw yn y gweithgareddau canlynol, sef y newid yn yr hinsawdd.

Syniadau pellach

- Defnyddiwch syniadau eraill o'r prosiect Learning through Values (gweler yr adran Adnoddau defnyddiol isod).
- Cefnogwch y dysgwyr i archwilio eu syniadau — yn syniadau cadarnhaol a negyddol — am y dyfodol. Gweler yr offeryn mapio meddwl Ideal Futures ar dudalen 18 o ddogfen Oxfam, Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides
- Defnyddiwch y llyfr lluniau Window gan Jeannie Baker, sy'n ymwneud â'r amgylchedd cyfnewidiol, fel ysgogiad i ddysgwyr drafod a meddwl am y byd naturiol o'u cwmpas a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Defnyddir incwm neu gyfoeth yn aml i fesur pa mor 'dda' y mae gwlad yn gwneud. Gallai'r dysgwyr ystyried mesurau llesiant amgen, sy'n canolbwyntio ar werthoedd cynhenid, a dysgu am wledydd sy'n arwain yn hyn o beth. Er enghraifft, cymeradwyodd Seland Newydd gyllideb llesiant yn 2019, lle mesurir cynnydd yn ôl lles yr amgylchedd, pobl a chymunedau, yn ogystal â'r economi. Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym yn 2015[17], ac mae'r Alban yn datblygu economi lesiant.[18]

Beth yr ydym yn ei wybod, yn ei feddwl, ac yn ei deimlo am y newid yn yr hinsawdd? (30 munud+)

Deilliannau dysgu: Meithrin dealltwriaeth o'r hyn y mae newid yn yr hinsawdd yn ei olygu, ei achosion a'i effeithiau; Archwilio meddyliau a theimladau posibl am y newid yn yr hinsawdd; Er nad oes modd newid y

[17] https://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
[18] www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-scotland-politics-51200821

'ffeithiau' am yr argyfwng hinsawdd, cydnabod bod modd rheoli'r modd yr ydym yn meddwl, yn teimlo ac yn ymateb i'r wybodaeth hon.

Nodwch: Efallai yr hoffech roi sylw manylach i wyddoniaeth, achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Os felly, gweler yr adrannau isod: Adnoddau defnyddiol a Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol.

- Ysgrifennwch 'Newid hinsawdd' ynghanol bwrdd gwyn neu ar ddarn mawr o bapur. Anogwch y dysgwyr i rannu unrhyw eiriau neu ymadroddion y maent yn eu cysylltu â'r newid yn yr hinsawdd. Nodwch y rhain ar nodyn gludiog ar y bwrdd gwyn neu ar y darn papur. Fel arall, gallai'r dysgwyr wneud y gweithgaredd hwn mewn parau neu mewn grwpiau bach, gyda phob un â'i ddarn papur ei hun.
- Trafodwch syniadau'r dysgwyr:
  - O ble y mae eich syniadau wedi dod?
  - A ydych yn siarad ag unrhyw un am y mater hwn? Os ydych chi, pwy?
  - Pa syniadau sydd gennym yn gyffredin?
  - Pa rai o'r rhain sy'n ffeithiau neu'n wybodaeth? Pa rai o'r rhain sy'n feddyliau? Pa rai o'r rhain sy'n deimladau?
- Ewch ati i gydweithio mewn grŵp i ddidoli eu syniadau yn bethau y mae dysgwyr yn eu 'gwybod', yn eu 'meddwl', ac yn eu 'teimlo'. Efallai yr hoffech ddidoli'r nodynnau gludiog (y syniadau) yn dri grŵp yn unol â hynny.
  - Yn gwybod: Pa ffeithiau neu wybodaeth yr ydym yn eu gwybod am newid hinsawdd? Beth ydyw? Beth sy'n ei achosi? Sut y mae'n effeithio ar bobl a'n planed?
  - Yn meddwl: Beth yr ydym yn meddwl sy'n digwydd neu a allai ddigwydd? Beth yr ydym yn meddwl y gellir/y dylid ei wneud yn ei gylch?
  - Yn teimlo: Sut yr ydym yn teimlo am newid hinsawdd?
- Defnyddiwch sleidiau 5 a 6 i roi esboniad cryno o'r hyn yw newid hinsawdd a beth sy'n ei achosi. Yna defnyddiwch sleidiau 7 i 10 i archwilio rhai o'r ffyrdd y mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar gymunedau ledled y byd 'nawr. Tynnwch sylw at ddifrifoldeb a maint y brys mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd — mae senedd y Deyrnas Unedig wedi datgan argyfwng hinsawdd, a dim ond 10 mlynedd sydd gennym i gyfyngu'n sylweddol ar effaith yr argyfwng hwn. Nodwch yr effeithir ar bawb ond bod rhai pobl yn fwy agored i niwed nag eraill, ac mai ar bobl dlotaf y byd, sydd wedi cyfrannu leiaf at yr argyfwng hinsawdd, yr effeithir arnynt fwyaf.
- Rhannwch y ddelwedd ar sleid 11 a gofynnwch i'r dysgwyr beth y maent yn ei weld yn y llun (mae'n debygol y bydd y dysgwyr yn dweud cwningen neu hwyaden, neu efallai'r ddau anifail). Eglurwch fod y llun hwn yn cael ei alw'n rhith optegol gan fod yr ymennydd yn cael ei dwyllo i weld delweddau gwahanol. Yn yr un modd, gallwn 'weld' neu ymateb i'r argyfwng hinsawdd mewn ffyrdd gwahanol — er enghraifft, teimlo anobaith weithiau ond yn fwy gobeithiol ar adegau eraill.
- Dywedwch nad oes modd i ni newid y ffeithiau am yr argyfwng hinsawdd, ond y gallwn reoli sut yr ydym yn meddwl ac yn teimlo amdano. Pwysleisiwch y gall pob un ohonom brofi llawer o feddyliau a theimladau gwahanol am y newid yn yr hinsawdd a'i bod yn iawn meddwl a theimlo fel hyn. Fodd bynnag, mae rhai meddyliau a theimladau yn fwy defnyddiol nag eraill, a hynny o ran rheoli ein llesiant ein hunain ac o ran pa ffordd o ddod ynghyd yw'r fwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- Dangoswch sleid 12 i'r dysgwyr, a thrafodwch eu hymatebion i'r meddyliau a'r teimladau hyn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

  - A ydych yn cytuno â'r meddyliau a'r teimladau hyn?
  - Pam yr ydych yn credu y gallai rhywun feddwl a theimlo fel hyn?
  - Pe bai hwn yn ffrind, beth a allech ei ddweud i geisio ei helpu i feddwl a theimlo'n fwy cadarnhaol?

- 'Nawr, dangoswch y meddyliau a'r teimladau amgen ar sleid 13. Unwaith eto, trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r rhain. Pa gyfres o feddyliau a theimladau a allai fod yn fwy defnyddiol, yn eu barn nhw, a pham?
- Atgoffwch y dysgwyr fod ein meddyliau a'n teimladau yn bwysig wrth lywio'r dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r modd yr ydym yn gweithredu. Eglurwch y bydd y dysgwyr yn y gweithgareddau canlynol yn archwilio sut y mae pobl yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal ag ystyried sut y gallent hwy eu hunain ddewis ymateb.

Syniadau pellach

- Defnyddiwch adnoddau Her Hinsawdd Oxfam (gweler yr adran Adnoddau defnyddiol isod) i gefnogi dysgu pellach am achosion y newid yn yr hinsawdd, a'i effaith ar bobl.
- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio 'thermomedr teimladau' ar gyfer unigolion neu'r dosbarth cyfan i dracio eu teimladau am yr argyfwng hinsawdd. Anogwch y dysgwyr i feddwl pam y gallai eu teimladau newid, er enghraifft pan fyddant yn clywed neu'n gweld rhywfaint o newyddion/ddelweddau negyddol a/neu sy'n peri gofid iddynt ynghylch sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl a'n planed, neu ar ôl iddynt hwy a phobl eraill yn eu hysgol neu yn eu cymunedau ddod ynghyd i weithredu.
- Cefnogwch y dysgwyr i greu 'bwrdd newyddion ar gyfer y newid yn yr hinsawdd'. Anogwch y dysgwyr i argraffu/dorri allan pytiau newyddion, lluniau neu benawdau y maent yn dod o hyd iddynt ynghylch yr argyfwng hinsawdd. Ewch ati i herio'r dysgwyr i ddod o hyd i ddau neu dri darn o newyddion cadarnhaol (er enghraifft newyddion am gymunedau'n addasu i'r newid yn yr hinsawdd, neu'n ymateb iddo), a hynny ar gyfer pob darn o newyddion drwg.
- Yn achos dysgwyr hŷn, defnyddiwch y clip fideo hwn gan Gyfeillion y Ddaear i ysgogi trafodaeth bellach ynghylch eco-bryder: https://friendsoftheearth.uk/climate-change/eco-anxiety

Gwrthsefyll yr argyfwng hinsawdd (30 munud)

Deilliannau dysgu: Meithrin sgiliau cwestiynu a chasglu; Cydnabod bod llawer o bobl, cymunedau a sefydliadau ledled y byd yn gweithio gyda'i gilydd i addasu i'r heriau sy'n eu hwynebu o ran yr hinsawdd.

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhowch gopi o un o'r delweddau yn sleidiau 14 i 18 i bob grŵp (heb roi'r wybodaeth ategol yn nodiadau'r sleidiau iddynt). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu meddyliau a'u syniadau am y ffotograff. Gallent ludo'r ddelwedd i ganol darn o bapur a nodi eu hymatebion o gwmpas ymylon y ffotograff.
  - Pa fath o dywydd sydd yno? A yw'n ardal drefol neu wledig?
  - Beth yr ydych yn ei gredu sy'n digwydd yn y ffotograff? Beth yr ydych yn ei wybod i sicrwydd?
  - Beth a allai fod wedi digwydd cyn i'r llun hwn gael ei dynnu, a beth a allai fod wedi digwydd wedyn?
  - Beth yr ydych yn ei gredu y gallai'r unigolyn neu'r bobl yn y ffotograff fod yn ei feddwl neu'n ei ddweud?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Neilltuwch amser i'r dysgwyr rannu eu syniadau am eu delweddau â dysgwyr eraill yn yr ystafell ddosbarth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr beth y maent yn ei gredu yw'r cysylltiad rhwng y ffotograffau. Yn gryno, trafodwch eu syniadau ac eglurwch fod pob un o'r ffotograffau hyn yn dangos pobl yr effeithir arnynt gan y newid yn yr hinsawdd 'nawr, ond eu bod yn gwrthsefyll yr argyfwng hinsawdd ac yn addasu i'r effeithiau hynny.
- 'Nawr, defnyddiwch y nodiadau yn sleidiau 14 i 18 i rannu gwybodaeth am y modd y mae'r bobl yn y delweddau hyn, a'u cymunedau, yn ymateb ac yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Gorffennwch trwy drafod meddyliau a syniadau'r dysgwyr am y modd y mae'r Deyrnas Unedig yn addasu (ac y bydd yn rhaid iddi addasu) i effeithiau'r argyfwng hinsawdd.

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio ymarferion chwarae rôl, seddi poeth neu luniau llonydd i feithrin empathi ymhellach, ynghyd â'u dealltwriaeth o sut y mae rhai pobl yn addasu i effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Yna gallent ymchwilio i sut y mae cymunedau yn y Deyrnas Unedig yn addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft trwy baratoi ac ymateb i'r risgiau cynyddol o lifogydd neu sychder.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r bobl yn y ffotograffau. Er na fyddant yn gallu cael yr atebion, mae'r broses holi ei hun hefyd yn meithrin empathi. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr hyn sy'n gwneud cwestiwn da. Anogwch nhw i arbrofi gyda mathau gwahanol o gwestiynau, er enghraifft cwestiynau agored neu gaeedig, neu gwestiynau hawdd neu anodd eu hateb. Trafodwch fanteision ac anfanteision mathau gwahanol o gwestiynau.

Ein grym ni — yn lanach, yn wyrddach ac yn gryfach gyda'n gilydd (30 munud)

Deilliannau dysgu: Deall bod angen i bob un ohonom gymryd camau gweithredu brys i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; Ystyried rhai o'r ffyrdd gwahanol o weithredu — p'un a yw hynny yn ein bywydau ni ein hunain, yn ein cymunedau, neu trwy alw ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau i wneud rhagor.

- Dangoswch sleid 19 i'r dysgwyr ac eglurwch fod pobl ledled y byd yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy gymryd camau gweithredu i leihau'r allyriadau carbon sy'n ganlyniad i weithgarwch pobl, a hynny trwy wneud newidiadau yn eu bywydau eu hunain, lledaenu'r gair yn eu cymunedau, neu ymuno â phobl eraill i alw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd camau gweithredu mwy beiddgar dros yr hinsawdd.
- Yn gryno, trafodwch awgrymiadau'r dysgwyr ar gyfer ffyrdd y gallai pobl wneud newidiadau yn eu bywydau eu hunain i leihau eu hôl troed carbon. Efallai y byddai'n ddefnyddiol annog y dysgwyr i ystyried y pedwar maes canlynol ar gyfer eu ffordd o fyw: teithio, cartref, bwyd neu 'stwff'. Gellir defnyddio'r delweddau ar sleid 20 fel deunydd ysgogi. Ymestynnwch y drafodaeth trwy ofyn i'r dysgwyr am awgrymiadau o ran pa newidiadau y gellid eu gwneud, yn eu barn nhw, i leihau allyriadau carbon eu hysgol.
- Defnyddiwch sleidiau 21 i 23 i rannu enghreifftiau o ffyrdd y mae pobl yn lledaenu'r gair ac yn galw ar y rheiny sydd mewn grym i gymryd camau gweithredu mwy beiddgar.
- Pwysleisiwch ein bod yn cynyddu ein cyfleoedd i wneud newid sylweddol trwy gydweithio ar y mater hwn. Gall pob un ohonom wneud pethau yn ein bywydau ein hunain i leihau allyriadau carbon, ac os bydd miliynau o bobl yn gwneud y newidiadau hyn, gallwn fod yn rym na all llywodraethau na chwmnïau ei anwybyddu. Mae gan lywodraethau'r pŵer i newid deddfau a fydd yn sicrhau bod

sefydliadau a busnesau mawr yn lleihau eu hallyriadau ar raddfa fawr, hefyd i wneud y newidiadau mawr sy'n angenrheidiol i'n helpu i fyw mewn cymdeithas wyrddach a thecach.

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhowch gopi o'r Syniadau ar gyfer Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd (Taflen weithgaredd 1) i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr dorri allan a threfnu'r cardiau gweithredu yn ôl a ydynt yn ymwneud â newidiadau i ffordd o fyw y gallai unigolion eu gwneud i leihau eu hôl troed carbon eu hunain, camau gweithredu y gellid eu cymryd i leihau allyriadau carbon eu hysgol neu eu cymuned, a chamau gweithredu y gellid eu cymryd i annog y llywodraeth a busnesau i wneud rhagor i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Anogwch y dysgwyr i ychwanegu eu syniadau eu hunain ar nodyn gludiog. Eglurwch fod yna orgyffwrdd rhwng y categorïau ac nad oes yna atebion cywir nac anghywir. Prif nod y gweithgaredd hwn yw annog y dysgwyr i feddwl am gamau gweithredu posibl y gellid eu cymryd, ynghyd â'u trafod.
- Trafodwch eu syniadau am y camau gweithredu gwahanol:
  - Pa gamau gweithredu sy'n hawdd eu cymryd? Pa rai sy'n fwy anodd, a pham?
  - Pa gamau gweithredu fyddai'n sicrhau'r effaith fwyaf, yn eich barn chi?
  - A ydych eisoes yn cyflawni rhai o'r camau gweithredu hyn? A hoffech gymryd rai o'r camau gweithredu hyn? Pa rai?
  - A allwch feddwl am unrhyw gamau gweithredu eraill y gall pobl eu cymryd? Os felly, beth?
  - Pa rwystrau a allai atal pobl rhag cymryd camau gweithredu, a sut y gellid eu goresgyn?
- Dangoswch sleid 24 ac atgoffwch y dysgwyr o'r gweithgaredd cyntaf, lle y bu iddynt ystyried pa fath o berson yr hoffent fod a pha fath o fyd yr hoffent fyw ynddo. Neilltuwch amser i'r dysgwyr ailystyried y syniadau y bu iddynt eu cofnodi, gan fyfyrio ar sut y gallai cymryd camau gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd eu helpu i fod yr unigolyn hwnnw a byw yn eu byd delfrydol. Anogwch y dysgwyr i rannu unrhyw gamau gweithredu y maent yn eu cymryd neu yr hoffent eu cymryd. Pa rwystrau y gallai fod angen i chi eu goresgyn er mwyn cyflawni hyn? A ydych yn credu ei bod yn haws cymryd camau gweithredu ar eich pen eich hun neu trwy gydweithio â phobl eraill?
- Gorffennwch trwy ddangos ffilm o stori'r sïedn (hummingbird) a ddarllenir gan Wangari Maathai (www.youtube.com/watch?v=IGMW6YWjMxw – darperir dolen ar sleid 25). Eglurwch fod Wangari Maathai wedi'i geni yn Kenya yn 1940. Sefydlodd fudiad y Green Belt Movement, sef sefydliad amgylcheddol sy'n annog plannu coed er mwyn grymuso cymunedau, yn enwedig menywod, i ddiogelu eu hamgylchedd a gwella eu bywydau. Dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel i Wangari yn 2004 am ei chyfraniad at greu byd mwy cynaliadwy, democrataidd a heddychlon.
- Neilltuwch amser i'r dysgwyr rannu eu myfyrdodau ac unrhyw syniadau pellach am ba gamau gweithredu y maent yn eu cymryd neu yr hoffent eu cymryd i wrthsefyll yr argyfwng hinsawdd.

Syniadau pellach

- Darperir dolenni defnyddiol yn yr adran Cymorth pellach i weithredu isod.
- Gweler Sesiwn 6 o adnodd Her Hinsawdd Oxfam (gweler yr adran Adnoddau defnyddiol isod) i gael gweithgareddau ychwanegol ar gyfer yr ystafell ddosbarth i gefnogi'r dysgwyr i ystyried, trafod a chynllunio'r camau gweithredu gwahanol y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- Ewch ar-lein i ddysgu am bobl ifanc eraill sy'n cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
  www.theguardian.com/commentisfree/2019/oct/05/greta-thunberg-developing-world-activists
  www.vice.com/en_uk/article/8xwvq3/11-young-climate-justice-activists-you-need-to-pay-

attention-to-beyond-greta-thunberg

Adnoddau defnyddiol

- **Her yr Hinsawdd**

  Mae adnoddau Her y Hinsawdd Oxfam ar gyfer y plant 7-11 ac 11-14 mlwydd oed yn defnyddio offer a gweithgareddau diddorol i archwilio achosion newid yn yr hinsawdd a'r effaith ar bobl, ac i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd mewn ymateb. Mae'r gweithgareddau hyn yn cysylltu â sawl maes yn y cwricwlwm, gan gynnwys Gwyddoniaeth, Saesneg a Daearyddiaeth.
  www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-7-11

  www.oxfam.org.uk/education/resources/climate-challenge-11-14

- **Straeon am y Newid yn yr Hinsawdd**

  Mae'r straeon go iawn hyn o Malawi, a gyhoeddwyd gan Oxfam, ynghyd â'r syniadau am weithgareddau cyflym, yn helpu dysgwyr 9-14 mlwydd oed i ystyried pwy yw'r bobl fwyaf agored i niwed mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd, ac i archwilio sut y mae cymunedau yn ymateb i hynny. www.oxfam.org.uk/education/resources/stories-of-climate-change

- **Learning through Values**

  Dan arweiniad Lifeworld Learning, datblygwyd y prosiect hwn a'r adnoddau cysylltiedig i ddarparu cymorth ar gyfer y broses o archwilio gwerthoedd trwy ddeialog a dysgu mewn nifer o leoliadau gwahanol. www.learningthroughvalues.org/

- **Transform Our World**

  Hwb adnoddau o ansawdd i helpu athrawon i gyflwyno camau gweithredu amgylcheddol i'r ystafell ddosbarth. Gallwch ddod o hyd i adnoddau'n ymwneud â nifer o bynciau, gan gynnwys ymateb i orbryder yr hinsawdd, archwilio effaith gwerthoedd ar ein llesiant a'r amgylchedd, a chymryd camau gweithredu dros yr hinsawdd.
  www.transform-our-world.org

- **Addysgu Pynciau Llosg**

  I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, Addysgu Pynciau Llosg, a ddiweddarwyd yn ddiweddar.
  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

- **Global Dimension**

  Mae'r llwyfan ar-lein hwn yn dod ag adnoddau, astudiaethau achos a gwybodaeth gefndir ynghyd i helpu athrawon ac addysgwyr eraill i gyflwyno dimensiwn byd-eang i'w gwaith.
  https://globaldimension.org.uk/

- **Campaign Against Climate Change**

  Rhestr o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu am y newid yn yr hinsawdd.
  www.campaigncc.org/schoolresources

- **Climate Kids NASA**

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth, gweithgareddau a gemau i gefnogi'r dysgu am wyddor y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd: https://climate.nasa.gov/

- ***Byd-Weithio!***

  Mynnwch olwg ar Byd-Weithio! i gael cyfoeth o syniadau ar sut i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Rhowch gymorth i'r dysgwyr symud o feddwl yn feirniadol am faterion sy'n bwysig iddynt i gynllunio a chymryd rhan mewn camau gweithredu, a myfyrio ar eu perfformiad ac asesu eu gwaith. www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global

- **Y Nodau Datblygu Cynaliadwy: Canllaw i athrawon**

  Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn gyfres o nodau a thargedau uchelgeisiol a brys sy'n anelu at newid ein byd er gwell. Mae Nod Datblygu Cynaliadwy 13 yn un ar weithredu dros yr hinsawdd. Yn llawn cyngor ymarferol, gwybodaeth ddefnyddiol, syniadau ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd ac astudiaethau achos ysbrydoledig, mae'r canllaw hwn yn anelu at ddyfnhau dealltwriaeth athrawon o addysg am y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac ar eu cyfer. www.oxfam.org.uk/education/resources/the-sustainable-development-goals

Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

- **Gwaith Oxfam ar y newid yn yr hinsawdd:**

  www.oxfam.org.uk/what-we-do/issues-we-work-on/climate-change

  https://policy-practice.oxfam.org.uk/our-work/climate-change

- **Canllaw Hinsawdd y Swyddfa Dywydd** — mynnwch wybod rhagor am ein hinsawdd a'r modd y mae'n newid: www.metoffice.gov.uk/climate-guide

- **Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)** – adroddiad diweddaraf yr IPCC yw'r ffynhonnell fyd-eang orau ar gyfer y gwaith ymchwil diweddaraf ar y newid yn yr hinsawdd: www.ipcc.ch/report

- Mae **Carbon Brief** yn wefan wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â gwyddor yr hinsawdd, y polisi hinsawdd a'r polisi ynni: www.carbonbrief.org

- Ewch i **Yale Climate Connections** i gael erthyglau, straeon radio, fideos a gweminarau er mwyn dysgu rhagor am y modd y mae'r hinsawdd sy'n newid eisoes yn effeithio ar ein bywydau: www.yaleclimateconnections.org

- Mae'r blogbost hwn yn darparu detholiad o ddelweddau data a ffeithluniau i rannu ffeithiau am y newid yn yr hinsawdd: https://visme.co/blog/climate-change-facts/

- **Gwerthoedd i Drawsnewid Ein Byd** — mae'r papur hwn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Global Action Plan ar gyfer arweinwyr ysgolion ac addysgwyr, yn awgrymu fframwaith ar gyfer llesiant myfyrwyr a phlaned iachach: www.transform-our-world.org/files/values_to_transform_our_world_white_paper.pdf

- **Climate Visuals** – mae'r wefan hon yn cynnwys llyfrgell gynyddol o ffotograffau ar gyfer cyfleu'r newid yn yr hinsawdd: https://climatevisuals.org/

- **Cynghrair Seicoleg yr Hinsawdd** — mynnwch wybod rhagor am eco-bryder a'r cysylltiad rhwng seicoleg a'r newid yn yr hinsawdd: www.climatepsychologyalliance.org

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cymorth pellach i weithredu

- **Grwpiau Ysgolion Oxfam** —mae Grwpiau Ysgolion Oxfam yn rhoi cyfle i bobl ifanc 11-18 mlwydd oed ddysgu a meddwl am faterion byd-eang cyn cymryd camau gweithredu yn eu cymunedau lleol a gwneud gwahaniaeth yn y byd ehangach. Trwy fod yn rhan o Grwpiau Ysgolion Oxfam, gall pobl ifanc gymryd rhan yn ymgyrchoedd diweddaraf Oxfam, datblygu sgiliau arwain, a siarad am dlodi byd-eang. www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-an-oxfam-school-group
- **Yr Hinsawdd Iawn i Ddysgu *(Right Climate to Learn)*** — ymunwch ag ymgyrch Danfona Fy Ffrind i'r Ysgol 2020 er mwyn anfon neges at lywodraeth y Deyrnas Unedig yn gofyn am i fwy gael ei wneud i atal y newid yn yr hinsawdd rhag tanseilio'r hawl i addysg, ac i gryfhau rôl addysg yn yr ymateb byd-eang i'r hinsawdd. https://sendmyfriend.org/
- Mynnwch wybod rhagor am gamau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig i ymgyrchu'n erbyn y newid yn yr hinsawdd, a sut y gall unigolion a chymunedau gymryd rhan.

  Clymblaid yr Hinsawdd *(Climate Coalition)*: www.theclimatecoalition.org

  Atal Anhrefn Hinsawdd yr Alban: www.stopclimatechaos.scot

  Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru: http://stopclimatechaos.cymru/
- Cymorth a chyngor i gynorthwyo unigolion i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hôl troed carbon.

  https://footprint.wwf.org.uk/
  www.wearepossible.org/
- **Newidwyr Hinsawdd Oxfam —** mae yna sawl peth y gall pobl eu gwneud yn rhan o'u bywyd bob dydd i leihau eu hôl troed carbon. Bob tro y byddwch yn cyfnewid taith mewn car am daith ar drên neu fws, yn bwyta pryd llysieuol, yn siopa mewn siopau ail-law, neu'n troi eich thermostat i lawr yn eich cartref, rydych yn gwneud gwahaniaeth. Mynnwch wybod rhagor a gwnewch addewid i newid eich ffordd o fyw. www.oxfam.org.uk/education

  Nodwch: Gan y gofynnir i unigolion sy'n gwneud addewid ar y llwyfan hwn gyflwyno data personol, rydym yn argymell na ddylid annog plant dan 18 mlwydd oed i ymrwymo i'r ymgyrch. Fodd bynnag, efallai y bydd gan athrawon ac addysgwyr ddiddordeb mewn ymuno yn yr ymgyrch eu hunain.
- **Rhwydwaith Hinsawdd Myfyrwyr y Deyrnas Unedig —** mae Oxfam yn rhannu llawer o'r pryderon a fynegir gan y rheiny sy'n ymwneud â'r streiciau hinsawdd. Mae ysgolion yn ymateb i'r streiciau hyn mewn ffyrdd gwahanol, ond mae llawer yn cymryd rhan ynddynt mewn ffyrdd creadigol, er enghraifft trwy drefnu 'streiciau' iard chwarae yn ystod amser cinio neu 'streiciau cwricwlwm', lle cynhelir gweithgareddau dysgu sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd neu'r amgylchedd yn hytrach na'r amserlen arferol o wersi. https://ukscn.org/

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r

wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Taflen weithgaredd 1: Syniadau ar gyfer Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd

Torrwch y cardiau gweithredu allan a'u trefnu'n ôl a ydych yn credu eu bod yn fwyaf perthnasol i newidiadau unigol y gallai pobl eu gwneud yn eu bywydau eu hunain, i gamau gweithredu y gallai pobl eu cymryd yn eu hysgolion neu eu cymunedau, neu i gamau gweithredu y gallai pobl eu cymryd i alw ar y rhai sydd mewn grym i wneud rhagor i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Cyflwyno gwasanaeth i feithrin ymwybyddiaeth o effeithiau'r argyfwng hinsawdd.	Beicio neu gerdded i'r ysgol yn hytrach na theithio mewn car.
Cwtogi ar faint o gig a llaeth yr ydych yn eu bwyta.	Ysgrifennu at yr Adran Addysg a dweud yr hoffech ddysgu rhagor am y newid yn yr hinsawdd yn yr ysgol.
Troi'r gwres canolog i lawr yn eich cartref a gwisgo dillad cynhesach yn lle.	Trefnu parti cyfnewid dillad lle gall pobl roi/defnyddio dillad nad oes arnynt eu heisiau.
Estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r llywodraeth leol neu arweinwyr busnes i'r ysgol a threfnu digwyddiad hawl i holi neu ddadl ar y newid yn yr hinsawdd.	Cynnal archwiliad gwastraff yn eich ysgol a defnyddio'r canlyniadau i helpu i gynllunio ffyrdd o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yr ysgol.
Cwtogi ar swm y bwyd yr ydych yn ei wastraffu gartref.	Gofyn i'r cyngor lleol wella trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau beicio yn eich ardal er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio ar eu ceir.
Trefnu i gwrdd â'r rheiny sy'n gyfrifol am eich prydau ysgol a gofyn iddynt ddarparu rhagor o opsiynau llysieuol a figan.	Sefydlu gardd ysgol a thyfu llysiau i'w defnyddio mewn ciniawau ysgol.
Ysgrifennu at eich cynrychiolydd seneddol lleol, neu drefnu i gwrdd ag ef, a gofyn iddo alw ar y llywodraeth i gymryd camau gweithredu mwy beiddgar i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd	Rhoi posteri o gwmpas yr ysgol i annog pobl i ddiffodd y goleuadau a'r cyfrifiaduron pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i feithrin ymwybyddiaeth o effeithiau'r argyfwng hinsawdd a sut y mae cymryd camau gweithredu (rhaid gofyn i'ch athro neu i oedolion eraill eich helpu os nad ydych yn ddigon hen i gael eich cyfrif eich hun, a gwneud yn siŵr bod gennych ganiatâd cyn cyhoeddi lluniau o bobl).	Llunio coeden addewid yn eich ysgol. Annog pawb i addo gwneud un neu ragor o newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hôl troed carbon. Gellid ysgrifennu'r addewidion hyn ar ddail papur wedi hynny a'u hychwanegu at y goeden.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ysgrifennu at un o gadwyni'r archfarchnadoedd mawr yn cynnig awgrymiadau ar sut y gallent leihau eu hôl troed carbon.	Defnyddio'r Rhyngrwyd i ddysgu mwy am y newid yn yr hinsawdd.
Siarad â'ch ffrindiau a'ch teulu am sut yr ydych yn meddwl ac yn teimlo am y newid yn yr hinsawdd, a pha gamau y gallech eu cymryd gyda'ch gilydd.	Mynd ati i wirfoddoli ar gyfer prosiect amgylcheddol yn eich cymuned — plannu coed, creu cynefinoedd bywyd gwyllt a mynd allan i'r awyr agored.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.